

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa CAERedigrwydd

Mae cronfa CAERedigrwydd rhoi cymorth i helpu unigolion, drwy sefydliadau/elusennau cyfrifol y trydydd sector, i:

- Leihau'r di-gartrefedd yng nghanol y ddinas drwy ymyrraeth amserol.
- Wneud newidiadau i atal digartrefedd a'r hyn sy'n achosi di-gartrefedd
- Gynyddu sgiliau cyflogaeth unigolion drwy gyflawni eu nodau addysg, hyfforddiant a gyrfa
- Wella rheolaeth ariannol
- Helpu unigolion ymgartrefu yn eu cymunedau drwy ymgysylltu'n llawn a chadarnhaol a chymdeithas

Grantiau ar gael

- Gall mudiadau ymgeisio am grantiau **hyd at £750** ar gyfer unigolion.

Gellir defnyddio'r grant ar gyfer y canlynol:

- Dillad addas ar gyfer cyfweiliadau neu swydd
- Prynu beic i deithio i swydd newydd
- Talu am hyfforddiant neu gwrs
- Pasbort ar gyfer teithio i weld teulu ar ôl cyfnod o ddieithrwydd
- Dodrefn/eitemau i'r cartref ar gyfer rhai symud i mewn i denantiaeth am y tro cyntaf ar ôl cyfnod o gysgu tu allan
- Aelodaeth campfa neu ddillad addas ar gyfer ymarfer corff ar gyfer person sydd eisiau gwella ei iechyd
- Costau cwnsela
- Gwersi gyrru
- Deunyddiau/offer gwaith.

Pwy a all ymgeisio?

Anogir ceisiadau gan fudiadau trydydd sector yn ninas Caerdydd.

Gyda ffocws ar atal, bydd 10% o'r gronfa yn cael ei gadw nôl ar gyfer mudiadau sy'n mynd i'r afael a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod er mwyn gwarchod y genhedlaeth nesaf rhag digartrefedd a chardota ar y stryd.

Sut i ymgeisio?

Ar hyn o bryd mae'r gronfa yn tyfu drwy roddion caredig gan y cyhoedd a fydd yn ein galluogi i gynnig mwy o grantiau.

Bydd angen i fudiadau gofrestru gyda Sefydliad Cymunedol Cymru cyn gwneud cais am grantiau i unigolion. Gellir gwneud hyn drwy gwblhau'r ffurflen o'n gwefan.

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ond unwaith y bydd angen i fudiad gyflwyno'r ffurflen yma.
- Gall Gweithwyr Cefnogol wedyn gyflwyno ffurflen gais ar-lein ar ran unigolyn. Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan www.cfiw.org.uk
- Bydd cais am £250 neu lai yn cael ei brosesu o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd ceisiadau am fwy na hyn yn cymryd 10 diwrnod gwaith

